

I ddod

- **HYFFORDDIANT DIOGELU GRWPIAU BREGUS** – Mewn eglwysi lle cynhelir gwaith gyda phlant/ieuenctid/oedolion bregus, mae RHAID i bob gwirfoddolwr ac ymddiriedolwr dderbyn gwiriad trwy lenwi ffurflen DBS, a hefyd fynychu hyfforddiant Diogelu Grwpiau Bregus. Mae un sesiwn hyfforddiant arall wedi ei drefnu ar gyfer nos Fawrth, Tachwedd 14eg yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr am 7.00. Os cyfyd unrhyw gwestiwn, holwch Rhodri yn y lle cyntaf, neu'r Parch. Morris P. Morris, Eiriolwr Diogelwch EBC (01824) 705961.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Tegid, Y Bala dydd Mercher, Tachwedd 15fed o 10.00 – 3.00.
- **OEDFA DEULU, A CHINIO A PHWDIN I DDILYN** yn Llansannan dydd Sul, Tachwedd 19eg am 10.30 i godi arian tuag at Apêl Corwynt Cariad. Yn gynharach eleni, fe gofiwch i Cheryl Williams ddod draw i roi cyflwyniad a dangos ffrwyth gwaith Cymorth Cristnogol yn Ynysoedd y Philipinas, sef y wlad sy'n cael sylw Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn 2017. Croeso i bawb. Enwau i Dylan Roberts (870286) erbyn **dydd Sul, Tachwedd 12fed**, os gwelwch yn dda. Oedolion: £10, Plant: £2.
- **PANED A SGWRS** yn Ffestri Llansannan dydd Mawrth, Tachwedd 21ain o 1.30-3.30. Croeso i bawb.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** – Swper a Sgwrs nos Fercher, Tachwedd 22ain yn Ffestri Llansannan am 7.00 yng nghwmni Judith Jones o'r Gaiman, Patagonia sydd yn Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Henaduriaeth Dyffryn Conwy. Enwau ac addewidion bwyd i Mair erbyn nos Fawrth, Tachwedd 14eg, os gwelwch yn dda. Pris: £5.00. Bydd yr elw yn mynd tuag at gostau cynnal Sasiwn Chwiorydd y Gogledd yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn 2018.
- **CYFARFOD BLAENORIAID GOFALAETH BRO ALED** nos Fercher, Tachwedd 29ain yn Llanefydd am 7.30.
- **GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 10fed am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!
- **OEDFA NADOLIG I'R FRO** – oedfa deulu yng Nghapel Llanefydd bore Sul, Rhagfyr 24ain **am 10.30**.
- **SWPER NADOLIG BRO ALED** yn Ffestri Llansannan, nos Iau, Rhagfyr 28ain am 7.30.
- **TAITH GERDDED HAMDDENOL I'R FRO** dydd Gwener, Rhagfyr 29ain. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 31ain **am 10.30** yng Nghapel Cefn Meiriadog.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 5^{ed} Tachwedd 2017

Darlleniad y Dydd

Salm 47:5-9

(BCND tud.516 / BCN tud.471)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Wythnos o wyliau? Ia plŷs! Dyna'r ymateb dwi wedi ei gael ymhob ysgol wrth fynd i wasanaethau diolchgarwch y plant cyn gwyliau'r hanner tymor. Ac mae'n naturiol i bawb, waeth beth yw'n hoed, i fod eisiau mwynhau mymryn o seibiant a thawelwch yn dilyn cyfnod trwm o weithgarwch. Ond petaem yn bod yn onest, faint ohonom sydd wedi cael ein temtio i feddwl felly am ddyddiau Sul hefyd? Ar ddiwedd wythnos brysur a ninnau wedi ymlâdd, pam ddim aros adref â'n traed i fyny yn hytrach na mynd i'r oedfa? Mae'n siŵr fod y demtasiwn yna'n dweud mwy am y ffordd yr ydym ni'n meddwl am wasanaethau Cristnogol nac am ein prysurdeb. Petaem yn cael gwahoddiad i gyfarfod y Prif Weinidog neu'r Frenhines gyda gweddill ein teulu, fyddem ni'n barod i daflu'r cyfan i ffwrdd er mwyn cael aros adref? Wrth i ni droi at ein darlleniad ar y cyd o Salm 47 heddiw, gwelwn gynulleidfa o bobl Dduw yn llawn cyffro oherwydd eu bod yn moli Brenin y Brenhinoedd. Mae'r Salmydd fwy nac unwaith yn annog y bobl i ganu mawl i'r Arglwydd oherwydd ei fod yn frenin ar y cyfan: yr holl ddaear, yr holl genhedloedd, a hyd yn oed holl arweinwyr y byd. Ai felly y byddwn ni'n meddwl am Dduw wrth ddarllen y Beibl, gweddio neu ganu mawl?

Wrth gwrs, rhyfeddod dysgeidiaeth y Beibl yw nad ydym angen paratoi ein hunain i fynd i weld y brenin yn ei balas wrth fynd i'r capel. Mae Iesu Grist yn fwy grymus, sanctaidd ac ysblennydd nac unrhyw frenin neu ymerawdwr dynol – gwirionedd a amlygwyd wrth i'r disgyblion cyntaf gyhoeddi 'Iesu yw'r Arglwydd' yn Llyfr yr Actau. Ond yn ychwanegol at hynny mae'r Testament Newydd yn ein dysgu fod y Brenin Iesu yn drugarog ac yn ein cymell i ddod ato fel ag yr ydym – yn wan, yn frwnt ac yn euog.

Sut allwn ni fentro gwneud y fath beth haerllug? Gan fod y Brenin arbennig hwn wedi dod i'n byd yn barod, gan ddarostwng ei hun fel caethwas a marw ar groes, cyn esgyn i'r nefoedd at ddeheulaw Duw. Oherwydd pwy yw Iesu, a beth a wnaeth trwy ei farwolaeth, ei atgyfodiad a'i esgyniad, gall y Cristion 'nesáu mewn hyder at orsedd gras, er mwyn derbyn trugaredd a chael gras yn gymorth yn ei bryd.' (Hebreaidd 4:16)

Felly beth ydym ni'n ei wneud wrth fynd i'r oedfaon gyda'n gilydd? Cael braint fel y gynulleidfa yn Salm 47 o ddod gyda'n teulu ysbrydol i wrando'n eiddgar ar newyddion da'r Brenin, ac ymateb i hynny trwy'n ffydd, ein mawl a'n diolchgarwch. Diolchwn am i Grist 'ddod yn dlawd drosoch chwi, er mwyn i chwi ddod yn gyfoethog trwy ei dlodi ef.' (2 Corinthiaidd 8:9)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Darlleniad Wythnos Nesaf

Actau 4:8-12 (BCND tud.132 / BCN tud.121)

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 5^{ed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 8^{fed}
lau – 9^{fed} ➤ **Torri Syched y dynion a'r merched** (*grwpiau tai*) am 7.30.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd **am 7.00.**
- Gwener – 10^{fed} ➤ **C.I.C.** (bl.7-9) yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd i Gartref Yr Hen Ddeondy i gynnal gwasanaeth byr am 10.30, ac yna bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a byddwn yn ymgynnull yn y Neuadd Goffa am 10.45 ar gyfer gwasanaeth Sul y Cofio. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a'r Ysgol Sul am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00 a chynhelir yr Ysgol Sul yno am 2.00.
- Mawrth – 7^{fed} ➤ Bydd Clwb Ysgol Sul Saron yn cyfarfod yn y festri am 3.15.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00, ac i'r oedolion a'r plant yn Groes am 10.00.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Llanefydd am 10.00.
- Gwener – 10^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Diolchgarwch Capel Cefn Berain am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg yn y ddwy eglwys.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 8^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
- Sadwrn – 11^{eg} ➤ Cyfle i weld Gweithdy Pencraig Fawr, Llansannan (trwy garedigrwydd Dylan Roberts) am 10.00. Disgwyliwr cyfraniad o £5 neu fwy, os gwelwch yn dda, fydd yn cael ei gyfrannu i Apêl Corwynt Cariad (Cymorth Cristnogol). Croeso i bawb.
- Sul nesaf – 12^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Byddwn yn ymgynnull wrth y gofeb ar gyfer Gwasanaeth Sul y Cofio am 10.50. Ni fydd Ysgol Sul i'r oedolion.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun yn Nantglyn am 2.00.

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion at Airys Jones (Peniel) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Rydym yn ei chyflwyno hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan weddio y bydd pob un ohonynt yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a chyflwynwn hwy yn dyner i ofal Duw.
- Llongyfarchiadau i Arthur ac Amy Evans (Llanfair) ar achlysur dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Miss W J Roberts a Mrs Kate Owen, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); Mrs Gwenllian Jones, Henllan (Plas Gwyn); Mrs Elsie May Edwards, Llansannan a Mrs Kitty Parry, Llanefydd (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Bessie Owens, Cefn Berain (Plas Llanrhaeadr); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); a Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych). Hyderwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drostynt.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 01745 582644 📱 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536